# PLANT Y CYMOEDD

# POLISI DIOGELU
**ADOLYGIAD 27**

**DYDDIAD ADOLYGU: 09/09/2024**

**DYDDIAD ADOLYGU NESAF: 08/09/2025**

# CYNNWYS

1
PLANT Y CYMOEDD - POLISI DIOGELU 3
1. Datganiad o ddiben .....3
2. Ymrwymiad Plant y Cymoedd i ddiogelu .....3
3. Sut ydyn ni'n diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn effeithiol? .....4
4. Beth sy'n rhaid i mi ei wneud os oes gennyf bryder? .....5
5. Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Diogelu .....5
6. Fframwaith y Polisi .....5
7. Manylion Cyswllt .....6
Plant y Cymoedd - Gweithdrefn Ddiogelu 8
8. Datganiad o ddiben .....8
9. Beth yw diogelu? .....8
10. Beth yw ein strwythur diogelu? .....8
11. Cyfrifoldebau holl Staff a Gwirfoddolwyr Plant y Cymoedd .....10
12. Sut gallaf adnabod honiad, pryder neu ddatgeliad diogelu? .....10
13. Beth ddylwn i ei wneud pan fyddaf yn derbyn honiad, pryder neu ddatgeliad? .....11
14. Adrodd a Chofnodi Pryderon, Digwyddiadau neu Ddatgeliadau o Gam-drin ac Esgeulustod .....11
15. Gwneud Atgyfeiriad Diogelu? .....12
16. Partneriaeth gyda Rhieni (Gwarcheidwaid / Gofalwyr) .....13
17. Cyfrinachedd .....15
18. Cadw Cofnodion .....15
19. Recriwtio Diogel .....16
20. Honiadau yn Erbyn Staff a Gwirfoddolwyr .....16
21. Chwythu'r chwiban .....16
22. Diogelu ar Safleoedd Plant y Cymoedd .....17
23. Gweithgareddau y tu allan i'r Ganolfan .....17
24. Cam-drin Domestig .....17
25. Radicaleiddio .....18
26. Polisïau Eraill .....18
27. Siart Llif Diogelu Plant y Cymoedd .....19

# PLANT Y CYMOEDD - POLISI DIOGELU

## 1. Datganiad o ddiben

Mae diogelu wrth wraidd popeth a wnawn yn Plant y Cymoedd, ac mae’n gyfrifoldeb ar bob un ohonom.

Fel aelod o staff, cyflogedig neu wirfoddol, rydych yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn. Mae hyn yn golygu amddiffyn a hyrwyddo diogelwch a lles plant, pobl ifanc ac oedolion wrth i chi eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial trwy weithgareddau a phrofiadau o safon.

Felly, mae’n bwysig iawn eich bod chi’n glir ynghylch eich cyfrifoldeb diogelu ac am ymrwymiad Plant y Cymoedd i ddiogelu.

Bydd ein polisi diogelu yn helpu i roi'r eglurder hwn i chi. Mae ar gyfer pawb sy’n ymwneud â Plant y Cymoedd – p’un a ydych yn wirfoddolwr, yn staff neu’n aelod. - Mae'n dweud wrthych am ein hegwyddorion diogelu a sut rydym yn ceisio amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ymwneud â Plant y Cymoedd.

Rhaid i chi ddarllen a dilyn y polisi diogelu a’r gweithdrefnau diogelu sy’n cyd-fynd ag ef. Nid yw hyn yn rhan o’r contract cyflogaeth ar gyfer staff na’r Cod Ymddygiad ar gyfer gwirfoddolwyr, ond mae’n amod o’ch cyflogaeth neu wasanaeth gwirfoddol.

## 2. Ymrwymiad Plant y Cymoedd i ddiogelu

Ein polisi yw diogelu pob plentyn, person ifanc ac oedolyn tra byddant yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Plant y Cymoedd. Mae hyn beth bynnag fo'u hoedran, anabledd (corfforol neu feddyliol), ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a statws mamolaeth, hil, crefydd neu gred neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn cydnabod bod rhai pobl yn fwy agored i niwed oherwydd effaith profiadau blaenorol, lefel eu dibyniaeth, eu hanghenion cyfathrebu, neu faterion eraill.

Mae gan bawb hawl i fyw yn rhydd rhag camdriniaeth, ecsploetiaeth, niwed ac ofn ac i fod yn ddiogel ac yn iach. Rydym yn cydnabod ac yn ymateb i bob math o gam-drin a niwed gan gynnwys cam-drin corfforol, emosiynol, rhywiol a domestig, esgeulustod, cam-drin ar-lein, camfanteisio’n rhywiol ar blant, anffurfio organau cenhedlu benywod, bwlio, aflonyddu a seiberfwlio,

radicaleiddio, masnachu mewn pobl, meithrin perthynas amhriodol ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol i hyrwyddo diogelu a lles ein haelodau ifanc, ein haelodau sy'n oedolion a'n gwirfoddolwyr.

Mae ein polisi, gweithdrefnau a chanllawiau diogelu wedi'u cynllunio i greu gofod diogel ar gyfer darpariaeth o ansawdd, gan amddiffyn diogelwch a lles ein holl blant, pobl ifanc ac oedolion. Maent hefyd wedi'u cynllunio i alluogi pawb sy'n gysylltiedig â Plant y Cymoedd i fod yn hyderus ei bod yn ddiogel rhannu pryderon, honiadau neu ddatgeliadau - boed yn ymwneud â gweithgareddau Plant y Cymoedd ai peidio.

## 3. Sut ydyn ni'n diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn effeithiol?

- Rydym yn eu gwerthfawrogi, yn gwrando arnynt ac yn eu parchu.
- Mae gennym strwythur diogelu ar waith.
- Rydym yn penodi arweinydd amddiffyn plant, dirprwy enwebedig ac aelod Bwrdd ar gyfer diogelu.
- Mae gennym weithdrefnau amddiffyn a diogelu plant, sy'n adlewyrchu arfer gorau.
- Rydym yn rhannu pryderon a gwybodaeth ag asiantaethau eraill pan fyddwn yn credu bod rhywun mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei niweidio neu pan fo pryderon sylweddol ynghylch addasrwydd oedolyn i weithio gyda phlant.
- Rydym yn gwneud yn siŵr bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn gwybod ble i fynd am gymorth os oes ganddynt bryder.
- Rydym yn rhannu gwybodaeth am arferion gorau amddiffyn a diogelu plant gydag aelodau, staff a gwirfoddolwyr.
- Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddiogelu ac arfer da gyda phlant a'u teuluoedd.
- Rydym yn darparu rheolaeth effeithiol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr trwy oruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant.
- Rydym yn prosesu gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn ddiogel, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.
- Rydym yn recriwtio staff yn ddiogel, yn unol â'r polisi recriwtio a fetio.
- Rydym yn defnyddio ein gweithdrefnau i reoli honiadau yn erbyn staff a gwirfoddolwyr.
- Rydym yn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn dilyn y cod ymddygiad.

- Rydym yn defnyddio polisïau a gweithdrefnau cwynion a chwythu'r chwiban.
- Mae gennym ni fesurau iechyd a diogelwch ar waith bob amser - yn unol â'r gyfraith a chanllawiau rheoleiddio - i ddarparu amgylchedd ffisegol diogel.
- Rydym yn adeiladu diwylliant diogelu lle mae staff, gwirfoddolwyr, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn trin ei gilydd â pharch ac yn gyfforddus ynglŷn â rhannu pryderon.

## 4. Beth sy'n rhaid i mi ei wneud os oes gennyf bryder?

Fel gwirfoddolwr neu aelod o staff, rhaid i chi ddeall y gweithdrefnau ar gyfer **adnabod**, **ymateb** i, a **chofnodi ac atgyfeirio** unrhyw bryderon, honiadau neu ddatgeliadau o niwed neu gamdriniaeth. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am hyn yn ein Gweithdrefnau Diogelu.

Os oes gennych bryder am rywun sy'n gweithio i Plant y Cymoedd, dylech ddilyn ein proses ar gyfer adrodd amdano. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am hyn yn ein Gweithdrefnau Diogelu.

## 5. Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Diogelu

Mae'r polisi diogelu hwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau perthnasol, sy'n ceisio amddiffyn plant ac oedolion ar draws pob rhan o Plant y Cymoedd.

Yn eu plith:

- Deddf Plant (1989) a (2004)
- Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (1998)
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006)
- Deddf Gofal Plant (2006)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (2015)
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)

## 6. Fframwaith y Polisi

Mae gan Plant y Cymoedd fecanweithiau ar gyfer monitro ac adolygu ei holl bolisïau a'u heffeithiolrwydd. Rhaid adolygu'r polisi hwn yn flynyddol. Rhaid i'r Aelod Bwrdd Dynodedig a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Dylid

darllen y Polisi Amddiffyn Plant hwn ar y cyd â Dogfennau Diogelu eraill sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol: -

- Polisi Gwrth-fwlio
- Polisi Ymddygiad
- Polisi Cwynion
- Polisi Cyfrinachedd
- Polisi Cod Ymddygiad
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi TG a Rhyngrwyd
- Polisi Gweithgareddau y Tu Allan i'r Ganolfan
- Polisi Ysmygu ac Alcohol
- Polisi Plant dan 8 oed
- Polisi Gwirfoddoli
- Polisi Chwythu'r Chwiban

## 7. Manylion Cyswllt

Arweinydd Diogelu Dynodedig
Elise Stewart, Prif Weithredwr, Plant y Cymoedd
e-bost safeguarding@valleyskids.biz
Ffôn: 01443 420870

Dirprwy Arweinydd Diogelu Dynodedig
Prif Swyddog Gweithredu, Plant y Cymoedd
e-bost: safeguarding@valleyskids.biz
Ffôn: 01443 420870

Bwrdd Ymddiriedolwyr
Dr Howell Edwards, Aelod Diogelu Dynodedig
e-bost: BoardMemberSafeguarding@valleyskids.biz
Ffôn: 07853 819266

Daeth y polisi hwn i rym ar 9 Medi 2024

Rydym wedi ymrwymo i adolygu ein polisi a'n harferion da.

Llofnodwyd ……………………………........................... Arweinydd Diogelu Dynodedig

Dyddiad:   9 Medi 2024

Llofnodwyd……………………………………………………………… Aelod Bwrdd Dynodedig

Dyddiad:  9 Medi 2024

# PLANT Y CYMOEDD - GWEITHDREFN DDIOGELU

Mae’r weithdrefn hon yn esbonio sut i ymateb i ddatgeliadau, honiadau neu bryderon diogelu.

## 8. Datganiad o ddiben

Fel aelod o staff, cyflogedig neu wirfoddol, rhaid i chi fod yn gyfarwydd â Pholisi Diogelu Plant y Cymoedd a sut i ddefnyddio'r weithdrefn ddiogelu. Mae’r weithdrefn yn esbonio sut y dylech ddefnyddio’r polisi diogelu pan fyddwch yn adnabod, yn derbyn neu’n atgyfeirio honiad, pryder neu ddatgeliad diogelu.

## 9. Beth yw diogelu?

Diogelu yw’r camau a gymerwn i hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion a’u hamddiffyn rhag niwed.

## 10. Beth yw ein strwythur diogelu?

Mae strwythur diogelu Plant y Cymoedd yn ein galluogi i ddefnyddio ein polisi a’n gweithdrefn diogelu yn effeithiol. Mae'n golygu y gallwn ddiogelu'n rhagweithiol ar draws y sefydliad.

Mae'r **Aelod Bwrdd Dynodedig** yn dehongli'r fframwaith deddfwriaethol ac yn sicrhau bod Plant y Cymoedd yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn dangos arfer diogelu da.

Mae’r **Arweinydd Diogelu Dynodedig (Prif Weithredwr)** yn sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant sy’n briodol i’w rôl. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am adrodd am honiadau, pryderon neu ddatgeliadau i Dîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) Rhondda Cynon Taf. Yn absenoldeb y Prif Weithredwr, mae **Person Diogelu Dynodedig Dirprwyol** yn cymryd y cyfrifoldeb hwn.

Pob **Person Diogelu Dynodedig (Cydlynydd/Rheolwr Tîm)** - yn darparu man diogel i blant, pobl ifanc a gwirfoddolwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd. Eu rôl hefyd yw bod yn effro, cwestiynu ymddygiad, ceisio cyngor a chymorth, a rhoi gwybod am unrhyw honiadau, pryderon neu ddatgeliadau i'r Prif Weithredwr.

**Staff Tîm a Gwirfoddolwyr** - cydnabod bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Rhaid iddynt adrodd am ddatgeliadau neu ddigwyddiadau i'w cydlynydd/rheolwr tîm.

Rhaid i **bob aelod o staff (cyflogedig neu wirfoddol)** gwblhau hyfforddiant diogelu sy'n gymesur â'u rôl.

## 11. Cyfrifoldebau holl Staff a Gwirfoddolwyr Plant y Cymoedd

Rhaid i unrhyw bryderon - boed yn ymwneud â phlentyn, person ifanc, teulu, cydweithiwr neu weithiwr proffesiynol arall - gael eu rhannu â Chydlynydd/Rheolwr Tîm neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (Prif Weithredwr).

Mae dyletswydd ar bob aelod o staff i gynorthwyo gydag asesu cam-drin a/neu esgeulustod plant posibl drwy rannu gwybodaeth a rhoi gwybod am bryderon fel yr amlinellir yn y weithdrefn hon.

**Nid yw gwneud dim yn opsiwn.**

Os bydd datgeliad yn cael ei wneud, mae angen atgyfeiriad llafar ar unwaith at y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA); ceir manylion cyswllt ar dudalen 6 y weithdrefn hon. Bydd hyn wedyn yn cael ei ddilyn gan atgyfeiriad ysgrifenedig o fewn 24 awr.

## 12. Sut gallaf adnabod honiad, pryder neu ddatgeliad diogelu?

Gallai pryder, honiad neu ddatgeliad diogelu fod yn unrhyw beth sy'n ymwneud â diogelwch neu les plentyn neu oedolyn, neu gallai ymwneud â'r risg y mae person yn ei beri.

Gallai gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Datgeliad o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed a wnaed gan unrhyw un o dan 18 oed.
- Datgeliad o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed a wnaed gan unrhyw un dros 18 oed.
- Rhywbeth sy'n peri pryder yn ymddygiad neu olwg person a allai awgrymu camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.
- Pryder am ymddygiad plentyn neu berson ifanc at un arall (cyfoedion yn cam-drin cyfoedion).
- Pryder neu honiad yn erbyn aelod o staff neu wirfoddolwr.
- Pryder neu honiad yn ymwneud ag unigolyn neu bersonau sy'n gysylltiedig ag aelod o staff neu wirfoddolwr (er enghraifft priod neu riant).
- Gallai honiad, pryder neu ddatgeliad diogelu hefyd ymwneud â chamdriniaeth neu niwed sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Rhaid i chi ddal i drin hyn o ddifrif a rhoi gwybod amdano ar unwaith.

## 13. Beth ddylwn i ei wneud pan fyddaf yn derbyn honiad, pryder neu ddatgeliad?

Weithiau, bydd plentyn, person ifanc neu oedolyn yn ymddiried ynoch gyda gwybodaeth bersonol, neu bydd gennych bryder am eu diogelwch neu les. Mae'n hynod bwysig eich bod yn deall eich rôl, gan gynnwys beth i'w ddweud a sut i ymddwyn.

Os bydd rhywun yn rhannu gwybodaeth â chi yn uniongyrchol (naill ai amdanynt eu hunain neu am rywun arall):

- Gwrandewch ar yr hyn sy'n cael ei ddweud heb ddangos sioc nac anghrediniaeth.
- Cynigwch sicrwydd i'r plentyn neu berson ifanc.
- Derbyniwch yr hyn sy'n cael ei ddweud.
- Gadewch i'r plentyn neu berson ifanc siarad yn rhydd.
- Rhowch sicrwydd i'r plentyn neu'r person ifanc ond peidiwch ag addo cadw cyfrinachau – gan na fyddwch chi'n gallu gwneud hynny a gallai hyn achosi i'r plentyn neu berson ifanc golli ei ffydd ynoch chi.
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd gan y bydd angen i chi basio'r wybodaeth hon ymlaen.
- Gwrandewch, yn hytrach na gofyn cwestiynau; os oes angen gofyn cwestiynau, sicrhewch fod y rhain yn benagored.
- Peidiwch â beirniadu'r troseddwr.
- Eglurwch beth fydd yn digwydd nesaf, os yw'n briodol.
- Ysgrifennwch gofnod cywir o'r sgwrs cyn gynted â phosibl.
- Rhowch wybod am y sgwrs i'r Person Diogelu Dynodedig (Cydlynydd/Rheolwr Tîm) neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (Prif Weithredwr).
- Darllenwch y Polisi a'r Weithdrefn Diogelu eto i sicrhau eich bod wedi dilyn y gweithdrefnau cywir o ran adrodd am bryderon a digwyddiadau diogelu.

## 14. Adrodd a Chofnodi Pryderon, Digwyddiadau neu Ddatgeliadau o Gam-drin ac Esgeulustod

Dylai staff lenwi ffurflen Pryder/Digwyddiad Diogelu os oes ganddynt bryderon am blentyn neu berson ifanc mewn perthynas â cham-drin a/neu esgeulustod, os ydynt yn dyst i ddigwyddiad o gam-drin neu os bydd plentyn neu berson ifanc yn datgelu cam-drin iddynt.

Efallai na fydd angen ymchwiliad i hyn neu na fydd chwaith yn arwain at ymchwiliad ond bydd yn helpu i gasglu'r holl wybodaeth bwysig ac angenrheidiol.

- Mae'n rhaid i'r holl staff adrodd unrhyw bryderon i'r Person Diogelu Dynodedig (Cydlynydd/Rheolwr Tîm) a fydd yn adrodd i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig, (Prif Weithredwr).
- Os yw'r Person Diogelu Dynodedig (Cydlynydd/Rheolwr Tîm) yn absennol, dylai aelodau staff adrodd i'r Uwch Aelod o'r Staff neu'n uniongyrchol i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig.
- Bydd pob pryder yn cael ei gymryd o ddifrif.
- Dylai staff fod yn ymwybodol nad oes ganddynt yr hawl i wneud adroddiad yn ddienw.
- Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig (neu'r Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig yn ei absenoldeb) yn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch pwy y mae angen iddynt ei gynnwys mewn trafodaethau ynghylch y pryder, digwyddiad neu ddatgeliad.
- Dim ond er mwyn helpu i amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc dan sylw y bydd pryderon, digwyddiadau a datgeliadau'n cael eu trafod.
- Rhoddir cefnogaeth lawn i staff drwy gydol y broses o adrodd, cofnodi ac atgyfeirio unrhyw bryderon, digwyddiadau neu ddatgeliadau o gamdriniaeth a/neu esgeulustod.
- Mae dyletswydd ar Plant y Cymoedd i wneud atgyfeiriad allanol i'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Bydd Plant y Cymoedd yn hyfforddi ein holl staff yn y maes hwn i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath.

## 15. Gwneud Atgyfeiriad Diogelu?

Mae dyletswydd ar staff i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud atgyfeiriad. Pan fyddwch yn gwneud atgyfeiriad diogelu, rhaid i chi lenwi **Ffurflen C1** a chadw cofnod o'r wybodaeth ganlynol:

- Pwy ydych chi, eich manylion cyswllt a'ch rôl.
- Am bwy neu beth yr ydych yn gwneud atgyfeiriad, (gan gynnwys enwau, os ydynt yn hysbys).
- Ble a phryd y digwyddodd y digwyddiadau atgyfeirio.
- Unrhyw gamau a gymerwyd gennych ynghylch yr honiad, pryder neu ddatgeliad cyn gwneud yr atgyfeiriad.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech hefyd gynnwys:

- Crynodeb clir a chryno. Gallech ddefnyddio pwyntiau bwled a nodiadau, cyn belled â'u bod yn dilyn trefn resymegol.
- Unrhyw ddogfennau a gohebiaeth ategol.

Cofiwch y canlynol wrth adrodd eich pryderon:

- Rhaid i chi ddatgan yn glir iawn os ydych yn pryderu am ddiogelwch uniongyrchol y person.
- Cadwch ffaith a barn ar wahân.
- Nodwch unrhyw help a roddir i'r person neu sydd ei angen ganddo.

**Cyfeirio at y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

Cyfeiriwch hefyd at y siart llif ar dudalen 10.

Bydd unrhyw atgyfeiriad i'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cael ei ddilyn i fyny gyda **Ffurflen C1** wedi'i chwblhau o fewn **24 awr** i'r cyswllt gwreiddiol.

**Dydd Llun i ddydd Gwener 9am i 5pm**
Atgyfeiriadau dros y ffôn 01443 425006
e-bost: IAATeam@rctcbc.gov.uk

**Gyda'r nos, ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus**
Atgyfeiriadau dros y ffôn 01443 743665
e-bost: SocialWorkemergencyDutyTeam@rctcbc.gcsx.gov.uk

## 16. Partneriaeth gyda Rhieni (Gwarcheidwaid / Gofalwyr)

Mae Plant y Cymoedd wedi ymrwymo i weithio gyda rhieni mewn modd cadarnhaol, agored a gonest. Byddwn yn sicrhau bod pob rhiant yn cael ei drin â pharch, urddas a chwrteisi. Perchir hawliau rhieni i breifatrwydd a chyfrinachedd ac ni chaiff gwybodaeth sensitif ei rhannu heb ganiatâd, oni bai bod angen gwneud hynny er mwyn amddiffyn plentyn.

Er mwyn hyrwyddo'r ethos hwn:

- Anogir rhieni i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r staff.

- Rhoddir gwybod i rieni am ein Polisi Diogelu Plant. Mae'n bwysig bod rhieni'n deall rôl Plant y Cymoedd mewn perthynas â'i gyfrifoldebau diogelu.
- Rhoddir gwybod i rieni y gallant weld y polisi hwn ar gais.

## 17. Cyfrinachedd

Ni all staff gadw datgeliad o gamdriniaeth yn gyfrinachol a rhaid iddynt gyfeirio'r mater at y Person Diogelu Dynodedig (Cydlynydd/Rheolwr Tîm) neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (Prif Weithredwr). Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar staff i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant gyda'r asiantaethau statudol dynodedig.

- Dylid gwneud pob atgyfeiriad gan wybod, yn ystod unrhyw ymchwiliad dilynol, y bydd y ffynhonnell yn hysbys i'r teulu.
- Dylid ymdrin ag unrhyw ddatgeliad yn sensitif a rhaid helpu'r plentyn i ddeall bod angen hysbysu'r bobl briodol a all helpu. Dylai staff fod yn ymwybodol y gallai unrhyw ddatgeliad fod wedi cymryd cryn ddewrder i'w leisio ac y gallai fod amrywiaeth o emosiynau cysylltiedig megis euogrwydd, embaras, anffyddlondeb a loes.
- Mae'n bosibl y bydd angen tynnu sylw staff eraill at bryderon am blentyn neu berson ifanc, o bosibl er mwyn monitro'r pryder neu gasglu tystiolaeth bellach cyn atgyfeirio, neu i helpu i ddarparu cymorth priodol i blentyn neu berson ifanc unwaith bod yr atgyfeiriad wedi'i wneud. Dim ond ar sail angen llym i wybod y dylid rhannu gwybodaeth.
- Sicrhewch mai dim ond y rhai sydd â chysylltiad proffesiynol sydd â mynediad at y cofnodion amddiffyn plant. Ar bob adeg arall, dylid eu cadw'n ddiogel dan glo.

## 18. Cadw Cofnodion

Mae'n bwysig cadw cyfrinachedd a chadw cofnodion cywir wrth ymdrin â'r holl faterion diogelu. Byddwn yn:

- Cadw gopi o Weithdrefnau Diogelu Cymru (2019) ar bob safle, sy'n hygyrch i'r holl staff.
- Cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn ddiogel mewn cwpwrdd dan glo.
- Rhannu pryderon gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n ymwneud â'r plentyn, ond mae'n bosibl na fydd cofnodion ar gael heb awdurdod yr Arweinydd Diogelu Dynodedig (neu'r Person Dirprwyol Dynodedig Diogelu yn ei absenoldeb).
- Cadw pob dogfen sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant nes bod y person yn 26 oed a'r rhai ar gyfer Plant sydd angen Gofal a Chymorth am 10 mlynedd.

## 19. Recriwtio Diogel

Bydd Plant y Cymoedd yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel yn eu lle ac y cynhelir yr holl wiriadau priodol (gan gynnwys gwiriadau a geirdaon y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ar gyfer pob aelod o staff.

## 20. Honiadau yn Erbyn Staff a Gwirfoddolwyr

Mae Plant y Cymoedd yn cydnabod y gall honiadau gael eu gwneud yn erbyn aelod o staff neu wirfoddolwr.

- Dylid cyfeirio unrhyw honiad yn erbyn y Cydlynydd Tîm/Rheolwr yn uniongyrchol at yr Arweinydd Diogelu Dynodedig. Cyfrifoldeb yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yw gwneud yr atgyfeiriad priodol i'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Dylid cyfeirio unrhyw honiad yn erbyn yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn uniongyrchol at yr Aelod Bwrdd Dynodedig neu, os nad ydynt ar gael, at Gadeirydd y Bwrdd. Cyfrifoldeb yr Aelod Bwrdd Dynodedig neu Gadeirydd y Bwrdd yw gwneud yr atgyfeiriad priodol i'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.
- Pan wneir honiad yn erbyn aelod o staff, bydd yr aelod o staff y gwnaed yr honiad iddo yn hysbysu'r Cydlynydd/Rheolwr Tîm neu, yn ei absenoldeb, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn syth.
- Bydd y camau a gymerir i ddiogelu plant yn unol â'r canllawiau a geir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.
- Dylid mynd ag unrhyw honiadau yn erbyn staff yn uniongyrchol ac fel mater o frys at y Cydlynydd/Rheolwr Tîm, neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig. Gellir gofyn am gyngor gan Gydlynydd Diogelu'r Awdurdod Lleol:
- Dylai'r ymholiadau cychwynnol bennu:
    - Bod honiad wedi ei wneud.
    - Yr hyn yr honnir iddo ddigwydd.
    - Pryd a ble yr honnir bod y digwyddiad(au) wedi digwydd.
    - Unrhyw bartïon eraill a allai fod wedi bod yn gysylltiedig.
    - Unrhyw bersonau eraill a oedd yn bresennol.
- Mae'n bwysig sefydlu cymaint o'r wybodaeth uchod ag sy'n ymarferol er mwyn cynorthwyo gydag ymholiadau parhaus;
- Ymdrinnir â honiadau ffug neu faleisus yn unol â pholisi disgyblu Plant y Cymoedd.

Gellir cysylltu â Chydlynydd Diogelu'r Awdurdod Lleol dros y ffôn ar 01443 420870 neu drwy e-bost childprotectionreviewingteam@rctcbc.gov.uk

## 21. Chwythu'r chwiban

Os oes pryderon ynghylch agwedd neu weithredoedd cydweithwyr, dylai staff fod yn ymwybodol o'u dyletswydd i godi'r materion hyn a chychwyn a dilyn y Weithdrefn Chwythu'r Chwiban.

## 22. Diogelu ar Safleoedd Plant y Cymoedd

Dylai safleoedd Plant y Cymoedd fod yn groesawgar a hygyrch, gan ddarparu man diogel i dyfu a datblygu ynddo. Byddwn yn diogelu pob plentyn a pherson ifanc drwy sicrhau:

- bod gennym reolaeth dros bwy sy'n dod i unrhyw un o adeiladau Plant y Cymoedd, fel nad oes gan unrhyw berson anawdurdodedig fynediad heb oruchwyliaeth at blant;
- bod yr holl ymwelwyr a chontractwyr yn cael eu goruchwylio tra ar y safle, yn enwedig pan fyddant yn yr ardaloedd y mae'r plant yn eu defnyddio;
- bod ein holl safleoedd yn cael eu gwneud yn ddiogel, y tu mewn a'r tu allan, a bod hwnnw'n broses rheoli risg ddynamig a wneir gan ein timau staff.

## 23. Gweithgareddau y tu allan i'r Ganolfan

Mae'n bwysig rhoi profiadau i blant a phobl ifanc sy'n ehangu eu gorwelion. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau sy'n mynd â grwpiau allan o'n canolfannau a'u hamgylchedd lleol.

Mae'n bosib y bydd elfen breswyl i'r gweithgaredd, neu efallai ddim, a byddwn yn cynnal yr holl wiriadau angenrheidiol ar lety arfaethedig. Pryd bynnag y trefnir taith, mae'n bwysig bod y trefniadau'n cael eu cyfathrebu'n dda. Bydd Asesiadau Buddion a Risgiau'n cael eu cynnal ar gyfer pob gweithgaredd allanol. (Gweler Polisi Tu Allan i'r Ganolfan.)

## 24. Cam-drin Domestig

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u lles, cyrhaeddiad addysgol, perthnasoedd teuluol a chyfoedion, a'u gallu i fwynhau perthnasoedd iach, hapus a pharchus yn y dyfodol.

Mae Plant y Cymoedd yn cydnabod y bydd yna blant a phobl ifanc sy'n profi neu'n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae dyletswydd ar bob aelod o staff i sicrhau bod y cyfranogwyr a'r staff yn ddiogel wrth ymwneud â gweithgareddau Plant y Cymoedd. Bydd Plant y Cymoedd yn hyfforddi staff yn yr hyfforddiant statudol 'Gofyn a Gweithredu' i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ymdrin â sefyllfaoedd o'r fath.

## 25. Radicaleiddio

O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, mae dyletswydd arnom i gyfeirio unrhyw bryderon ynghylch eithafiaeth at yr heddlu. Gall hyn ymwneud â newid yn ymddygiad plentyn neu aelod o'r teulu, sylwadau sy'n peri pryder i aelod o'r tîm (neu bersonau eraill yn y lleoliad) neu gamau sy'n peri i staff boeni am ddiogelwch plentyn yn eu gofal. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn effro i unrhyw arwyddion cynnar mewn plant a theuluoedd a allai fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio, y byddwn yn gweithredu arnynt. Bydd yr holl bryderon yn cael eu cofnodi.

Os oes pryderon o natur amddiffyn plant, dylid dilyn y gweithdrefnau amddiffyn plant arferol (gweler adrodd a chofnodi pryderon tudalen 5 eitem 7) a cheisio cyngor gan y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

## 26. Polisïau Eraill

Bydd Plant y Cymoedd yn rhoi ystyriaeth i egwyddorion diogelu wrth ddatblygu ein holl bolisïau. Mae gwybodaeth am ganllawiau a pholisïau pellach y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ym Mholisi Diogelu Plant y Cymoedd.

## 27. Siart Llif Diogelu Plant y Cymoedd

Ar bob cam o'r weithdrefn, dylid rhoi sylw dyledus i gywirdeb y wybodaeth a'r cyflymder a chyfrinachedd y caiff ei chyfathrebu.

Pryderon wedi eu nodi am blentyn neu berson ifanc

Plentyn / person ifanc yn datgelu esgeulustod neu gamdriniaeth. Peidiwch â chwestiynu - gwrandewch, gwnewch nodiadau a'u dyddio cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Trafodwch gyda'ch
Pennaeth Rhaglen (Rheolwr Tîm / Cydlynydd Canolfan / Rheolwr Cymorth ac Atebolrwydd)

Trafodwch gydag
Arweinydd Diogelu Dynodedig
y tîm (Prif Weithredwr) neu, yn eu habsenoldeb eu Dirprwy (Prif Swyddog Gweithredu). Ni ddylid gwneud atgyfeiriadau heb hysbysu aelod o'r uwch dîm arwain.

Gall yr Arweinydd Diogelu Dynodedig gael cyngor ac arweiniad trwy gysylltu â'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
Diwrnodau'r wythnos 9-5 - 01443425006 E-bost: IAATeam@rctcbc.gov.uk
Ar benwythnosau, gyda'r nos a gwyliau cyhoeddus - 01443 743665
e-bost: SocialWorkEmergencyDutyTeam@rctcbc.gcsx.gov.uk

Atgyfeiriad yn cael ei brosesu gan Dîm IAA (Awdurdod Lleol)

Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu fel canllaw. Cyfeiriwch at Bolisi Diogelu Plant y Cymoedd ac at Weithdrefnau Diogelu Cymru.